# CYFARFOD BLYNYDDOL CYNTAF O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2013

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jeffrey M.Evans, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, Llinos Medi Huws, T Ll Hughes, K P Hughes, W T Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Carwyn Jones, H E Jones, A M Jones, R Ll Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| WRTH LAW: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Cynaliadwy<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG) |
| YMDDIHEURIADAU: | Y Cynghorydd Richard Owain Jones |

### 1 CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd G.O.Jones yn Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2013-14.**

Wrth dderbyn yr anrhydedd o gael ei benodi, addawodd y Cynghorydd Jones y byddai'n gwneud ei orau i gyflawni'r dyletswyddau hyd orau ei allu. Achubodd ar y cyfle hefyd i dalu teyrnged i'r Cadeirydd a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd R. Llewelyn Jones am ei ymrwymiad o ran cynrychioli'r Cyngor Sir yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Diolchodd y Cynghorydd R Llewelyn Jones, y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, i holl aelodau a swyddogion y Cyngor am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Rhoes hefyd grynodeb o'i ddyletswyddau fel Cadeirydd a'r modd y bu iddo gynrychioli'r Cyngor mewn amryfal ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Dymunodd yn dda i'r Cynghorydd G.O.Jones gan obeithio y byddai yntau hefyd yn cael cyfnod hapus a llwyddiannus.

### 2 IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Raymond Jones yn Is-Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2013-14.**

Diolchodd y Cynghorydd Raymond Jones i'r aelodau am eu hyder ynddo ac am eu geiriau caredig. Dywedodd ei fod yn bwriadu cydweithio gyda'r Cadeirydd newydd a'i gefnogi.

## 3 CYHOEDDIADAU

Llongyfarchodd y Cadeirydd yr aelodau hynny o'r Awdurdod a oedd newydd gael eu hethol. Achubodd ar y cyfle hefyd i ddiolch i'r cyn aelodau hynny a oedd wedi colli eu seddau yn yr etholiad a thalodd deyrnged i'r gwaith a wnaethant yn ystod eu cyfnod fel Aelodau.

## 4 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim i'w datgan.

## 5 CYFLWYNIAD YR YMGEISWYR I GEFNOGI EU HENWEBIAD I FOD YN ARWEINYDD Y CYNGOR

Yn unol â Pharagraff 2.7.3.2 y Cyfansoddiad, ac ar ôl rhoi cyflwyniad ysgrifenedig (maniffesto) i'r Prif Weithredwr cyn 5:00 pm ar 9fed Mai 2013 cafwyd anerchiad llafar 10 munud gan yr ymgeiswyr isod ar eu gweledigaeth ar gyfer y Cyngor a'u gwerthoedd:-

(a) Y Cynghorydd R.G. Parry. OBE
(b) Y Cynghorydd Ieuan Williams

Ar ddiwedd pob cyflwyniad, ymatebodd yr ymgeiswyr i gwestiynau gan Aelodau'r Cyngor.

## 6 PENODI ARWEINYDD Y CYNGOR SIR

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Ieuan Williams yn Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn am gyfnod o 4 blynedd yn unol ag Erthygl 7 ac yn arbennig y rheolau gweithdrefn dan Baragraffau 2.7.3.2.3 a 2.7.3.2.4 Cyfansoddiad y Cyngor.**

(Yn dilyn pleidlais gudd, y bleidlais oedd 17 – 12 o blaid y Cynghorydd Ieuan Williams)

## 7 DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR SIR

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi penodi'r Cynghorydd J Arwel Roberts yn Ddirprwy Arweinydd.

## 8 CADARNHAU PWYLLGORAU

Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau fel y cyfeirir at hynny yn Rhan 3.4 Cyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r isod:-

- Panel Tâl a Graddfeydd (is-bwyllgor o'r Cyngor Sir)
- Panel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
- Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig
- Is-bwyllgor Indemniadau

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES**
**CADEIRYDD**